RHEOLAU MYNWENT GYMUNEDOL BODFFORDD

1. Nid oes neb i dorri bedd neu osod carreg heb yn gyntaf fod wedi ymofyn a`r Clerc a cael cyfarfod ar y safle. Rhaid I rybudd am gladdedigaeth gael ei rhoi i`r Clerc 3 diwrnod clir (heb gyfrif Dydd Sul) cyn yr angladd nes bydd tystysgrif meddygol yn gorchymyn claddu ar unwaith.
2. Fel arfer 2.44m x 2.14m o ddyfnder fydd maint bedd a hynny ar gyfer dim mwy na 2 gladdedigaeth, bydd rhai gofalu fod o leiaf 0.9m o bridd uwchlaw yr arch a mesur i lawr o lefel y tir, neu 0.6m os yw`r bedd wedi ei leinio a brics gyda slab concrit.
3. Y llwybr rhwng bob rhes o feddau i fod yn ddwy droedfedd, a rhwng bob bedd unigol yn un troedfedd a hanner.
4. Ni chaniateir claddu ar y Sul.
5. Y beddau a`r cerrig beddau i gael eu cadw mewn trefn gan y perchenogion a byddant yn gyfrifol am unrhyw niwed neu cwympiad y garreg fedd. Rhaid gosod carreg goffa o fewn blwyddyn, carreg ben yn unig, gan ofalu cadw`n union a`r beddau eraill pan y gosodi`r. Ni chaniateir ffiol neu unrhyw addurn arall ond ar waelod concrid y garreg.
6. Ni chaniateir gwerthu lle bedrodd a rhaid dilyn yn yr un rhes a`r bedd olaf agorwyd.
7. Ni chaniateir claddu heb gyflwyno`r dystysgrif i`r Clerc cyn diwrnod yr angladd.
8. Disgwylir i bob teulu gadw`r beddau mewn trefn er cynorthwyo`r Cyngor i gadw`r fynwent yn daclus.
9. Cyn cael gosod carreg fedd rhaid anfon cynllun a lliw o`r garreg i`r Clerc. Ni chaniateir cofebion sydd yn fwy na 1.22m o uchder a 0.9m o led a dylid ei gosod ar sylfaen diogel a wneir y garreg, llechen neu concrit. Ni chaniateir ymylon palmentydd ("kerbs") o gwmpas y beddau.
   Rhaid talu`r ffi angenrheidiol cyn gosod y garreg fedd.
10. Y teulu gyda`r ymgymerwr, fydd yn gyfrifol am symud y garreg fedd cyn unrhyw agoriad dilynol.
11. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i garreg fedd.
12. Ni chaniateir unrhyw addurniad ar wyneb glaswelltog y beddau na phlannu coed neu flodau.
13. Yr Ymgymerwyr fydd yn gyfrifol am agor a chau y beddau ac am ddiogelwch a chyflogi`r gweithwyr. Rhaid i`r gwaith gydymffurio a rheolau iechyd a diogelwch cyfredol a gwellianau. Rhaid i`r pridd a cherrig a adewir ar ol unrhyw adeilwaith gael ei symud ymaith gan y sawl a fu`n gwneud y gwaith a rhaid i bob niwed a wneir gael ei adferu. Yr arolygwr i archwilio`r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn drwyadl.
14. Ni chaniateir ymgymeryd a`r cau tan fydd yr holl alalwyr wedi gadael y fynwent ond rhaid ei gyflawni o fewn yr un diwrnod.
15. Pob ymgymerwr i fod yn gyfrifol am gysylltu gyd`r Awyrlu yn y Fali (01407 762241) 48 awr cyn yr angladd i`w hysbysu o`r amser y bydd y galarwyr yn y fynwent gan fod cytundeb.
16. Bydd caniatad a phlot i gladdu baban neu blentyn dan 5 oed mewn man neilltuedig yn rhad ac am ddim.
17. Lle bedrodd I fod yn 9 troedfedd wrth 4 troedfedd, ei ddyfnder i fod fel a ganlyn:-
    a. Bedd i un yn 5 troedfedd yn ol dymuniad y
    b. Bedd i ddau yn 6 troedfedd teulu pan agori`r
    c. Bedd i dri yn 7 troedfedd y bedd am y tro
    d. Bedd ar gyfer llwch yn 3 troedfedd cyntaf.
18. TELERAU MEDDIANT BEDRODD FEL A GANLYN:-

a. Agor bedrodd	£400.00
b. Gosod carreg	£100.00
c. Ail agor bedrodd	£300.00
d. Ail osod carreg	£100.00
e. Claddu llwch	£300.00
f. Ail agor ar gyfer llwch	£100.00

AGOR BEDD. CYFYNGU MAINT UNRHYW BEIRIANT I (3 TUNNELL) O BWYSAU, AR PEIRIANT FOD AR DRACIAU RWBER.

CLERC Y FYNWENT. Derek Owen. Penant, 18 Y Lincs, Porthllechog, Ynys Mon, LL68 9EG. (Ffon 07766552583) ebost. derekowen1946@hotmail.co.uk.

SIECIAU YN DALIADWY I CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD.